**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Y Pwyllgor Busnes**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

24 Ionawr 2024

**Adolygiad Cyfyngedig o Reol Sefydlog 26C**

Annwyl Huw,

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cynnal adolygiad cyfyngedig o Reol Sefydlog 26C - Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd, i ystyried sawl mater a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn eich llythyr dyddiedig 28 Medi 2023.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig bod y Senedd yn cytuno ar ddiwygiad i'r Rheolau Sefydlog i egluro pryd mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor wedi'i chwblhau, yn ogystal â nifer o fân gywiriadau teipograffig i Reol Sefydlog 26C a nodwyd drwy'r adolygiad cyfyngedig hwn. Heddiw rydym wedi gosod adroddiad yn cynnig y newidiadau hynny ac wedi cyflwyno cynnig i'w ystyried gan y Senedd ar 31 Ionawr.

Fel y gwyddoch, mae rhaglen waith weithdrefnol y Pwyllgor Busnes yn cynnwys ymrwymiad i adolygiad llawn o Reol Sefydlog 26C unwaith y bydd y Bil Cydgrynhoi nesaf wedi'i ystyried gan y Senedd.

Wrth ystyried y materion eraill a godir yn eich llythyr, sy'n ymwneud â'r broses y mae Bil Cydgrynhoi yn ei dilyn o Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu'r Cyfnod Terfynol, fe wnaethom gytuno i aros tan yr adolygiad llawn cyn dod i gasgliad ynghylch a ddylid cynnig unrhyw newidiadau i'r agwedd hon ar y prosesau o dan Reol Sefydlog 26C. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried ymhellach fanteision ac anfanteision diwygio'r Rheolau Sefydlog yn y meysydd rydych chi wedi'u codi, yng ngoleuni'r profiad pellach a gafwyd drwy ystyried Bil Cydgrynhoi pellach. Byddwn, yn naturiol, yn ymgynghori â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac eraill fel rhan o'r adolygiad llawn.

Yn y cyfamser, os bydd sefyllfa yn codi lle nad yw eich Pwyllgor yn gallu dod i gytundeb unfrydol neu fwyafrif ar eich argymhelliad sy'n deillio o gyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar Fil Cydgrynhoi, bydd y clerc yn rhoi cyngor gweithdrefnol i chi, fel Cadeirydd, ynghylch sut i ddefnyddio eich pleidlais fwrw er mwyn datrys y sefyllfa. Byddai'r cyngor hwn yn unol â'r egwyddorion a'r cynseiliau sylfaenol a gymhwysir i ddefnyddio'r bleidlais fwrw, ac sydd wedi'i chynnwys mewn canllawiau.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am ysgrifennu i rannu eich profiad o ystyried y Bil Cydgrynhoi cyntaf a gyflwynwyd i'r Senedd a chodi gyda ni y materion y cyfeirir atynt uchod.

Cofion cynnes



**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**